# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y Y CABINET

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD IAU, 17 AWST 2017 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | M C Child | R Francis-Davies |
| A S Lewis | C E Lloyd | J A Raynor |
| M Thomas | | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): W Evans a/ac D H Hopkins

32. **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddion canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr J E Burtonshaw, M C Child, R Francis-Davies, A S Lewis, C E Lloyd, J A Raynor ac M Thomas ddiddordeb personol yng Nghofnod 44, "Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol".

33. **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2017.

34. **ADRODDIAD(AU) ARWEINYDD Y CYNGOR.**

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

35. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

36. **HAWL I HOLI CYNGHORWYR.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau i gynghorwyr.

## 37. ADBORTH O'R CYFARFOD CRAFFU CYN PENDERFYNU - CYNLLUNIO AC ADFYWIO'R DDINAS - ADOLYGIAD COMISIYNU

Cyflwynodd y Cynghorydd T J Hennegan, Is-gadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu, Adborth ar Graffu Cyn Penderfynu.

**PENDERFYNWYD**:

1) Nodi'r cyflwyniad.

## 38. CYNLLUNIO AC ADFYWIO'R DDINAS - ADOLYGIAD COMISIYNU

Cyflwynodd Aelodau'r Cabinet dros Ddiwylliant, Twristiaeth a Phrosiectau Mawr a Chyfleoedd Masnachol ac Arloesedd adroddiad ar y cyd a oedd yn manylu proses a chanfyddiadau Adolygiad Comisiynu Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas, a'r modelau cyflwyno arfaethedig newydd ar ei gyfer.

**PENDERFYNWYD:**

1) Cyflwyno pob agwedd ar y gwasanaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas drwy fodel mewnol wedi'i drawsnewid;

2) Nododd y Cabinet y goblygiadau ariannol, AD a chyfreithiol sy'n gysylltiedig â phob opsiwn fel y'i nodwyd ym mharagraffau 4 i 10 yr adroddiad.

## 39. PRE DECISION SCRUTINY FEEDBACK - ALL COUNCIL CATERING - COMMISSIONING REVIEW.

Cyflwynodd y Cynghorydd T J Hennegan, Is-gadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu, Adborth ar Graffu Cyn Penderfynu.

**PENDERFYNWYD:**

1) Nodi'r cyflwyniad.

## 40. ADOLYGIAD COMISIYNU ARLWYO'R CYNGOR CYFAN.

Cyflwynodd yr Aelodau Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes adroddiad a oedd yn manylu cefndir yr Adolygiad Comisiynu "Holl Arlwyo'r Cyngor" ac yn nodi'r canfyddiadau a'r argymhellion o'r Arfarniad Opsiynau.

**PENDERFYNWYD:**

1) Cymeradwyo'r opsiwn a ffefrir;

2) Creu swydd Swyddog Datblygu Busnes;

3) Cymeradwyo cyfleoedd masnachol i'w rhoi ar waith;

4) Roedd y Cabinet yn cefnogi'r farn y dylai'r gwasanaeth arlwyo staff fod yn gost niwtral;

5) Cydnabu'r Cabinet y risg ariannol a oedd yn gysylltiedig â'r nifer sy'n gadael ysgolion uwchradd a phwysau cyllidebol hysbys;

6) Cydnabu'r cyngor y newid i'r sefyllfa ariannol o'r adolygiad hwn;

7) Comisiynu mwy o waith i adolygu'r mesurau rheoli sydd ar waith i gefnogi'r model busnes hwn.

## 41. CYTUNDEB PARTNERIAETH (S33) AR GYFER ISADEILEDD RHAGLEN BAE'R GORLLEWIN

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Iechyd a Lles adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer egwyddorion y Cytundeb Partneriaeth (A33) ar gyfer Isadeiledd Rhaglen Bae'r Gorllewin a oedd yn cynnwys cronfa er mwyn rhannu costau staff ar gyfer Swyddfa Rhaglen Bae'r Gorllewin.

**PENDERFYNWYD:**

1) Cymeradwyo egwyddorion y Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Isadeiledd Rhaglen Bae'r Gorllewin lle byddai Dinas a Sir Abertawe yn awdurdod cynnal, gyda thri phartner statudol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Bwrdd Iechyd PABM;

2) Rhoi caniatâd i Brif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol gymeradwyo'r fersiwn derfynol o'r Cytundeb Partneriaeth, a threfnu iddo gael ei gyflawni, mewn ymgynghoriad â Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busnes a'r Swyddog Adran 151;

3) Rhoi caniatâd i Brif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol mewn ymgynghoriad â Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busnes a'r Swyddog Adran 151 i wneud unrhyw fân newidiadau yn y dyfodol i'r Cytundeb Partneriaeth a gyflawnwyd.

## 42. MONITRO REFENIW A'R GYLLIDEB GYFALAF - CHWARTER 1AF 2017/18

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes adroddiad a oedd yn manylu ar fonitro ariannol cyllidebau refeniw a chyfalaf 2017/18, gan gynnwys cyflwyno arbedion cyllidebol.

**PENDERFYNWYD:**

1) Nodi'r sylwadau a'r amrywiadau yn yr adroddiad a'r camau gweithredu sydd ar y gweill er mwyn mynd i'r afael â'r rhain.

## 43. POLISI RHEOLI RISG.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes adroddiad a oedd yn ceisio cytundeb ar bolisi Rheoli Risgiau diwygiedig y cyngor a chymeradwyaeth i'w fabwysiadu.

**PENDERFYNWYD:**

1) Mabwysiadu'r Polisi Rheoli Risgiau Corfforaethol diwygiedig.

## 44. PENODIADAU LLYWODRAETHWYR YR AWDURDOD LLEOL.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i'r enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**PENDERFYNWYD:**

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol fel y'u hargymhellwyd gan Banel Penodi Llywodraethwyr yr ALl:

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Ysgol Gynradd Danygraig | Y Cyng. Joseph Hale |
| 2. | Ysgol Gynradd Gendros | Y Cyng. Michael Durke |
| 3. | Ysgol Gynradd Penclawdd | Mrs Susan Phillips |
| 4. | Ysgol Gynradd Pen y Fro | Y Cyng. Louise Gibbard |
| 5. | Ysgol Gynradd Plasmarl | Y Cyng. David Hopkins |
| 6. | Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant | Mr Chris Law |
| 7. | Ysgol Gynradd Heol y Teras | Y Cyng. Erika Kirchner |
| 8. | Ysgol Gynradd Trallwn | Mrs Susan Bowen<br>Y Cyng. Yvonne Jardine |
| 9. | Ysgol Gynradd Waunarlwydd | Y Cyng. Wendy Lewis |
| 10. | Ysgol Gyfun Tregŵyr | Miss Kelly Small |
| 11. | Ysgol Gyfun yr Olchfa | Y Cyng. Michael Day |
| 12. | Ysgol Gyfun Bryn Tawe | Mr Adrian Laurence |

Daeth y cyfarfod I ben am 2.17 pm

**CADEIRYDD**